Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Wythnos Siarad 2024

Adroddiad

## Cynnwys

Cynnwys ........ 1

1.0 Pwrpas yr adroddiad: ........ 3

2.0 Crynodeb gweithredol ........ 3
Tabl 1. Crynodeb o'r prif themâu ........ 4

3.0 Cyflwyniad ........ 5

4.0 Gwybodaeth ddemograffig ........ 6
Graff 1. Ymatebwyr fesul coleg ........ 6
Graff 2: Ymatebwyr yn ôl lefel astudio ........ 7
Graff 3: Ymatebwyr yn ôl blwyddyn astudio ........ 8

5.0 Dadansoddiad ........ 8
Graff 4: Sylwadau a dderbyniwyd fesul thema ........ 9

6.0 Themâu allweddol: ........ 10

7.0 Dadansoddiad ........ 10
Cyfleusterau ........ 10
7.1 Llyfrgelloedd ........ 10
7.2 Esthetig adeiladau ........ 10
7.3 Microdonnau ........ 10
7.4 Seddi mewn ardaloedd cymunedol ........ 10
7.5 Pwyntiau trydan ........ 11
7.6 Diogelwch ........ 11
7.7 Parcio ........ 11
Addysgu ........ 11

7.9 Dulliau addysgu rhyngweithiol ... 11
7.10 Sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein ... 12
7.11 Oriau cyswllt ... 12
7.12 Wythnos ddarllen ... 12
Ardaloedd astudio ... 12
7.14 Oriau agor ... 13
7.15 Mwy o ardaloedd astudio a gwelliannau ... 13
Cymorth i fyfyrwyr ... 13
7.19 Cymorth lles ac iechyd meddwl ... 13
7.20 Cefnogaeth academaidd gan diwtor / mentor personol ... 14
7.21 Myfyrwyr rhyngwladol ... 14
7.22 Cymorth Gyrfaol ... 14
8.0 Sylwadau Ychwanegol ... 14
8.1 Amserlen ... 14
8.2 Asesu ... 15
8.3 Arlwyo ... 15
8.4 Trafnidiaeth ... 15
8.5 Cymorth llety ... 16
8.6 Y Gymraeg ... 16
9.0 Myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol ... 16
9.1 Opsiynau arlwyo Halal ... 16
9.2 Toiledau rhywedd-niwtral ... 17
9.3 Ystafelloedd gweddïo ... 17
9.4 Pryderon hygyrchedd (lifftiau a mynediad i'r campws) ... 17

10.0 Undeb Myfyrwyr Caerdydd ........ 18
10.1 Trosolwg ........ 18
Newidiadau dymunol ........ 18
10.2 YOLO ........ 18
10.3 Cost aelodaeth ........ 18
10.4 Digwyddiadau ........ 18
10.5 Ardaloedd astudio ........ 18
10.6 Cyfathrebu ........ 19
10.7 Cymdeithasau ........ 19
10.8 Campws y Mynydd Bychan ........ 19
Gofynnwyd i'w cadw ........ 19
10.9 Cymdeithasau ........ 19
10.10 Bwyd a diod fforddiadwy ........ 19
10.11 Digwyddiadau ........ 19
10.12 Mynediad a gofodau ........ 19
Effaith Undeb y Myfyrwyr ar fywyd myfyrwyr ........ 20
Tabl o sylwadau ........ 20

## 1.0 Pwrpas yr adroddiad:

I gyflwyno prif ganfyddiadau ymgyrch Wythnos Siarad 2024/25 er mwyn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch newidiadau a gwelliannau mewn ymateb i adborth myfyrwyr.

## 2.0 Crynodeb gweithredol

Cynhaliwyd yr Wythnos Siarad ym mis Tachwedd 2024. Gwnaeth 4,230 o fyfyrwyr gymryd rhan a chyflwynwyd 7,072 o sylwadau unigol.

Mae'r pedwar maes a dderbyniodd y nifer mwyaf o sylwadau i'w gweld yn nhabl 1 ynghyd â chrynodeb o'r hyn y mae myfyrwyr yn dymuno ei gadw a'i newid yn y meysydd hyn.

**Tabl 1. Crynodeb o'r prif themâu**

| Maes | Cadw | Newid |
|---|---|---|
| **Cyfleusterau** | **296 sylwad**<br>• Llyfrgelloedd 24/7<br>• Cynnal a chadw cyffredinol ac adeiladau | **674 sylwad**<br>• Mwy o lyfrgelloedd 24/7 ac oriau ardaloedd astudio estynedig<br>• Socedi plygiau ychwanegol mewn mannau cymunedol ac ardaloedd astudio |
| **Addysgu** | **267 sylwad**<br>• Staff addysgu<br>• Fformat y cwrs | **349 sylwad**<br>• Mwy o addysgu personol a dosbarthiadau llai<br>• Gwell adnoddau ar-lein ac addysgu rhyngweithiol<br>• Mwy o amser cyswllt gyda thiwtoriaid/mentoriaid personol<br>• Darlithoedd byrrach |
| **Ardaloedd Astudio** | **234 sylwad**<br>• Argaeledd ardaloedd astudio 24/7<br>• Ansawdd ac amrywiaeth ardaloedd astudio<br>• Canolfan Bywyd y Myfyrwyr | **242 sylwad**<br>• Mwy o gapasiti mewn ardaloedd astudio<br>• Mwy o ardaloedd astudio ar draws campysau (gan gynnwys mwy o ardaloedd astudio 24/7) |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymorth i Fyfyrwyr** | **212 sylwad**<br><br>• Cefnogaeth academaidd<br>• Staff cyfeillgar a chymwynasgar<br>• Cymorth gyrfaol | **257 sylwad**<br><br>• Cefnogaeth iechyd meddwl a lles estynedig<br>• Mwy o gefnogaeth academaidd gan addysgwyr a mentoriaid |

## 3.0 Cyflwyniad

3.1 Mae'r Wythnos Siarad yn ymgyrch flynyddol a gynhelir a threfnir gan Undeb y Myfyrwyr, gan rhoi cyfle i fyfyrwyr rhannu eu hadborth ynghylch y newidiadau y maent am eu gweld ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r holl sylwadau a wneir yn ystod yr Wythnos Siarad yn cael eu hadolygu gan y Swyddogion Sabothol fel y gallant fod yn eiriol dros newidiadau cadarnhaol o fewn y brifysgol.

3.2 Cynhaliwyd ymgyrch eleni (2024/25) ym mis Tachwedd 2024 dros gyfnod o wythnos. Roedd yn cynnwys cyfres o stondinau wyneb yn wyneb ar draws Undeb y Myfyrwyr a champysau'r brifysgol lle gallai myfyrwyr ysgrifennu a chyflwyno cardiau adborth corfforol. Yn ogystal, roedd gan fyfyrwyr yr opsiwn i rannu eu hadborth trwy ffurflen ar-lein a oedd ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr. Darparodd cyfanswm o 107 o fyfyrwyr adborth ar-lein, a chymerodd 4,123 o fyfyrwyr rhan trwy'r stondinau, gan arwain at gyfanswm o 4,230 o ffurflenni adborth.

3.3 Y llynedd, canolbwyntiodd Wythnos Siarad 2023/24 ar gasglu adborth gan fyfyrwyr ynghylch pum maes penodol y nodwyd bod angen eu gwella. Er gwnaeth y dull hwn ddarparu ymatebion manwl a thrylwyr, roedd y cyfranogiad cyffredinol llawer is nag mewn blynyddoedd blaenorol ac nid oedd yn casglu'r amrywiaeth o newidiadau hoffai myfyrwyr eu gweld ar draws y brifysgol. O ganlyniad, ar gyfer Wythnos Siarad 2024/25 dychwelyd at fformat agored, gan alluogi myfyrwyr i roi adborth ynghylch unrhyw feysydd.


3.4 Gofynnwyd i fyfyrwyr, "Petaech chi'n rhedeg y Brifysgol, beth fyddech chi'n ei gadw a beth fyddech chi'n ei newid?" Cyflwynwyd cyfanswm o 7,072 o sylwadau unigol, gan gynnwys 3,313 o sylwadau 'cadw' a 3,759 o sylwadau 'newid'. Gofynnwyd hefyd i fyfyrwyr ddarparu gwybodaeth am eu hysgol, blwyddyn astudio, grŵp blwyddyn, ac a oeddent yn aelod o'r Undeb Athletau neu Urdd y Cymdeithasau.

3.5 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i fyfyrwyr nodi faint roedden nhw'n cytuno â'r datganiad canlynol gan ddefnyddio graddfa Likert - “Mae Undeb y Myfyrwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar fy mywyd fel myfyriwr”. Gyda phum opsiwn ymateb - 'anghytuno'n gryf,' 'anghytuno,' 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno,' 'cytuno,' a 'cytuno'n gryf'. Atebodd cyfanswm o 2,790 o fyfyrwyr y cwestiwn hwn, sef ychydig dros 65% o'r holl rai a gwblhaodd ffurflen Wythnos Siarad. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn adran Undeb y Myfyrwyr yr adroddiad (tudalen 17).

## 4.0 Gwybodaeth ddemograffig

4.1 Mae Graff 1 yn dangos nifer y myfyrwyr a roddodd adborth yn ystod Wythnos Siarad fesul **Coleg**. Mae hefyd yn cymharu ymgysylltiad myfyrwyr â'r ymgyrch hon ar draws pob coleg â'r llynedd.

### Graff 1. Ymatebwyr fesul coleg




4.2 Er gwnaeth y cyfanswm a ymgysylltodd gynyddu, roedd y cynnydd mewn cyfranogiad gan fyfyrwyr BLS yn fach iawn. Yn ogystal, ni nododd 3,336 o fyfyrwyr eu coleg, sy'n golygu mai


dim ond tua 900 o fyfyrwyr a atebodd, sef ychydig dros 21% o'r holl fyfyrwyr a rhannodd adborth.

4.3 O ystyried bod myfyrwyr AHSS yn cyfrif am ychydig llai na hanner corff myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, roedd disgwyl iddo fod â'r gyfradd ymgysylltu uchaf. Fodd bynnag, mae'n syndod cafodd PSE, sy'n ffurfio llai o'r boblogaeth fyfyrwyr na BLS, nifer uwch o ymatebion. (Data o'r Pecyn Data Dyfodol Academaidd a ddarparwyd gan Brifysgol Caerdydd - Tachwedd 2024).

Mae'r data'n awgrymu bod diffyg ymgysylltiad gan fyfyrwyr BLS yn yr Wythnos Siarad a dylid archwilio hyn, gan gynnwys goresgyn rhwystrau i gyfranogiad cyn ymgyrch y flwyddyn nesaf. Un rheswm posibl dros ymgysylltiad cyfyngedig â'r grŵp hwn yw bod llawer ohonynt ar leoliad ac nid ar y campws yn ystod yr ymgyrch. Y flwyddyn nesaf, byddai'n fuddiol ystyried ffyrdd eraill o gyrraedd y myfyrwyr hyn.

4.4 Mae Graff 2 yn dangos demograffig y myfyrwyr a gyflwynodd adborth, wedi'i gategoreiddio yn ôl **lefel astudio**


### Graff 2: Ymatebwyr yn ôl lefel astudio




Nid yw'n syndod roedd y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr yn israddedigion. Mae myfyrwyr israddedig fel arfer yn treulio mwy o amser ar y campws ac yn Undeb y Myfyrwyr, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn bresennol er mwyn i ni ryngweithio â nhw o gymharu â myfyrwyr ôl-raddedig. Gellid cynnal dadansoddiad ar wahân o ymatebion gan fyfyrwyr ôl-raddedig os fyddai hynny'n darparu mewnwelediadau defnyddiol.

4.5 Mae Graff 3 yn cyflwyno demograffig y myfyrwyr a gyflwynodd adborth, wedi'i gategoreiddio yn ôl **blwyddyn astudio**.

**Graff 3: Ymatebwyr yn ôl blwyddyn astudio**




## 5.0 Dadansoddiad

5.1 Proseswyd data Wythnos Siarad fesul sylwadau unigol, sy'n golygu y gallai sylwadau ar un cerdyn adborth gael eu categoreiddio o dan fwy nag un thema lle bo'n berthnasol. Cafodd data ei grwpio gan ddefnyddio cymysgedd o themâu a bennwyd ymlaen llaw a themâu newydd a


ddeilliodd yn uniongyrchol o'r adborth - dim ond y rhai â chynrychiolaeth sylweddol yn nata eleni gafodd eu cynnwys. Cafodd yr holl ddata ei brosesu a'i ddadansoddi gan dîm Llais y Myfyrwyr.

5.2 Mae Graff 4 yn cyflwyno nifer y sylwadau a gofnodwyd ar gyfer 13 o'r 14 thema a nodwyd (Nid yw sylwadau ynghylch Undeb y Myfyrwyr wedi'u cynnwys).

5.3 Mae adborth ynghylch Undeb y Myfyrwyr wedi'i gynnwys ar wahân ar ddiwedd yr adroddiad hwn (tudalen 17).

5.4 Er gwnaeth y thema 'Arall' dderbyn llawer o sylwadau, tynnwyd hon o'r pedair thema allweddol oherwydd yr ystod o adborth a dderbyniwyd yn y categori hwn, gan gynnwys 264 o fyfyrwyr (40% o'r sylwadau 'Arall') a ysgrifennodd 'Popeth' i'w gadw neu 'Dim byd' i'w newid.

**Graff 4: Sylwadau a dderbyniwyd fesul thema**



## 6.0 Themâu allweddol:

6.1 Dangosir y pedair thema uchaf fesul sylwadau a dderbyniwyd yn Nhabl 1 (tudalen 3).

6.2 Cafodd y pedair thema uchaf yma eu cynnwys mewn 58% o'r holl sylwadau a gyflwynwyd (ac eithrio sylwadau 'Arall' ac 'Undeb y Myfyrwyr'), gan amlygu eu harwyddocâd i fyfyrwyr. Darperir dadansoddiad manwl o'r pedair thema unigol uchaf yn yr adran ganlynol o'r adroddiad.

## 7.0 Dadansoddiad

### Cyfleusterau

#### *7.1 Llyfrgelloedd*

Roedd 219 o sylwadau'n canolbwyntio ar oriau agor cyfleusterau'r brifysgol, gyda phwyslais penodol ar lyfrgelloedd. Roedd nifer o fyfyrwyr yn gwerthfawrogi'r llyfrgelloedd 24/7 presennol.

Roedd 120 o sylwadau'n gofyn am oriau agor estynedig ar draws y campws, ynghyd ag angen am fwy o fynediad 24/7 i lyfrgelloedd ac oriau agor hirach yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr (CSL). **Crybwyllwyd yr oriau agor yn aml mewn sylwadau ynghylch gofod astudio y CSL.**

Gweler hefyd yr adran **Ardaloedd astudio**.

#### *7.2 Esthetig adeiladau*

Roedd myfyrwyr yn gwerthfawrogi adeiladau hanesyddol y brifysgol ac yn gofyn iddynt gael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Derbyniodd Canolfan Bywyd y Myfyrwyr (CSL) ganmoliaeth gan 47 o fyfyrwyr, gyda'u sylwadau 'cadw' yn amlygu ei gyfleusterau a'i wasanaethau, yn ogystal â'r adeilad modern a'r gofod corfforol. Derbyniodd y CSL tua 88 o sylwadau 'cadw' ar draws pob thema gan ddangos ei werth i fyfyrwyr.

#### *7.3 Microdonnau*

Gwnaeth 27 o fyfyrwyr ofyn am fwy o ficrodonau a/neu degellau ledled y campws yn enwedig mewn ardaloedd cymunedol gyda 3 myfyriwr yn nodi gwerthfawrogiad am yr offer presennol. Mae hon yn thema a godwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

#### *7.4 Seddi mewn ardaloedd cymunedol*

Canolbwyntiwyd dro ar ôl tro ar yr angen am seddi a byrddau ychwanegol mewn mannau cymdeithasol, gyda 53 o sylwadau yn tynnu sylw at y mater hwn. Roedd adborth y myfyrwyr yn

nodi bod mannau cymunedol mewn adeiladau poblogaidd yn aml yn orlawn a bod diffyg seddau digonol i ddiwallu anghenion myfyrwyr.

### *7.5 Pwyntiau trydan*

Roedd yr adborth yn cynnwys 89 sylwad yn dangos galw mawr am fwy o bwyntiau trydanol a socedi gwefru mewn ardaloedd cymunedol a mannau addysgol gan gynnwys neuaddau darlithio.

| |
|---|
| Mae'r angen am seddi ychwanegol a socedi gwefru wedi'u nodi dro ar ôl tro mewn arolygon Wythnos Siarad blaenorol. |

### *7.6 Diogelwch*

Derbyniwyd 14 sylw ynglŷn â diogelwch y campws, gyda myfyrwyr yn gofyn am well goleuadau gyda'r nos ac eraill yn amlygu'r angen am fesurau diogelwch ychwanegol o fewn ardaloedd 24/7 ar y campws.

### *7.7 Parcio*

Darparodd 31 o fyfyrwyr adborth ar faterion parcio ar y campws ac ar draws Caerdydd. Mae'n bwysig nodi, ar adeg yr arolwg roedd Cyngor Caerdydd yn trafod y posibilrwydd o gael gwared ar drwyddedau parcio i fyfyrwyr, a allai fod wedi cyfrannu at amlygrwydd y mater hwn. Soniodd llawer o fyfyrwyr yn benodol am gampws y Mynydd Bychan, gan alw am opsiynau parcio gwell a mwy fforddiadwy ar draws safleoedd y brifysgol.

## **Addysgu**

7.8 Cawsom 616 o sylwadau gan fyfyrwyr ynghylch addysgu, gyda 43% ohonynt yn canmol 'addysgu' ar draws y brifysgol. Tynnodd llawer o fyfyrwyr sylw at gefnogaeth gref gan ddarlithwyr a mentoriaid a chyflwyniad cyrsiau boddhaol. Gwnaeth 47 hefyd mynegi boddhad gyda'r fformat addysgu presennol gan gynnwys strwythur gwersi a dulliau cyflwyno.

### *7.9 Dulliau addysgu rhyngweithiol*

Tra gwnaeth 47 o fyfyrwyr gwerthfawrogi dulliau presennol o gyflwyno cyrsiau, mynegodd llawer ddiddordeb mewn dulliau mwy amrywiol. Gofynnodd 68 o fyfyrwyr am 'newid' mewn dulliau gyda llawer yn gofyn am fwy o drafodaethau, gweithdai rhyngweithiol a gweithgareddau ymarferol gydag 11 o fyfyrwyr yn gofyn yn arbennig am fwy o 'ryngweithio'/'ymgysylltu' mewn gwersi.

Mae 26 o fyfyrwyr eisiau gwelid 'newid' yng nghynnwys eu cwrs gyda rhai myfyrwyr yn dweud bod modiwlau'n teimlo'n hen ffasiwn ac yn 'amherthnasol', gan argymell bod y modiwlau hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddaru.

### *7.10 Sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein*

Er bod myfyrwyr yn gwerthfawrogi hyblygrwydd darlithoedd ar-lein, gofynnodd 24 sylwad am fwy o sesiynau wyneb yn wyneb. Amlygwyd y cais hwn hefyd yn ystod Wythnos Siarad 2023/24. Wedi dweud hynny, mae hyblygrwydd dysgu ar-lein yn parhau i fod yn fuddiol i lawer o fyfyrwyr, a chafodd addysgu ar-lein ei ganmol mewn sawl sylwad 'cadw'.

O ran dysgu ar-lein, codwyd pryderon ynghylch oedi wrth lanlwytho recordiadau ar-lein, gyda myfyrwyr yn gofyn am fynediad cyflymach ac i bob darlith gael ei recordio.

### *7.11 Oriau cyswllt*

Gofynnodd 43 o sylwadau am fwy o oriau cyswllt a chefnogaeth uniongyrchol gan academyddion. Yn ogystal, gwnaeth 8 myfyriwr ddadlau dros ddosbarthiadau llai mewn darlithoedd a sesiynau.

### *7.12 Wythnos ddarllen*

Roedd hefyd galw bach i fwy o gyrsiau gynnwys wythnosau darllen, gyda 9 sylw 'cadw' ychwanegol yn canmol yr wythnosau darllen presennol, gan awgrymu y dylent aros yn eu lle. Ceir adborth pellach am amserlennu yn yr adran Sylwadau Ychwanegol (tudalen 14).

| |
|---|
| Mae myfyrwyr yn gofyn am fwy o ddosbarthiadau rhyngweithiol gyda mwy o gyfleoedd ymgysylltu. Mae galw o hyd am fwy o ddosbarthiadau wyneb yn wyneb, fel y gwelwyd mewn adroddiadau Wythnos Siarad blaenorol. Mae myfyrwyr yn credu y byddai eu perfformiad academaidd yn gwella o ganlyniad i fwy o amser cyswllt ag academyddion/tiwtoriaid, dosbarthiadau llai, a chyflwyno wythnosau darllen ar draws mwy o gyrsiau. |

## Ardaloedd astudio

7.13 Derbyniwyd cyfanswm o 476 o sylwadau ynghylch ardaloedd astudio, sy'n golygu bod y pwnc hwn wedi'i gynnwys mewn ychydig o dan 11% o'r holl adborth (ac eithrio sylwadau "Arall" ac "Undeb y Myfyrwyr"). Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd ardaloedd astudio i fyfyrwyr. Roedd yr adborth am ardaloedd astudio presennol yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda bron cymaint o fyfyrwyr yn cyfeirio at feysydd i'w cadw â'r rhai a nododd yr hyn yr oeddent am ei weld yn newid.

### *7.14 Oriau agor*

Rhannodd 234 o fyfyrwyr adborth cadarnhaol, gan werthfawrogi'n arbennig argaeledd ardaloedd astudio 24/7, gyda nifer yn diolch am y mynediad i'r cyfleusterau hyn ac yn cydnabod eu gwerth. Fodd bynnag, gofynnodd 31 o fyfyrwyr am oriau agor estynedig ar gyfer ardaloedd astudio presennol, gyda 21 o'r myfyrwyr hyn yn gofyn yn benodol am ardaloedd astudio 24/7 ychwanegol i ddiwallu eu hanghenion ac amserlenni yn well.

### *7.15 Mwy o ardaloedd astudio a gwelliannau*

Y cais mwyaf cyffredin am newid oedd yr angen am fwy o ardaloedd astudio, gyda 177 o sylwadau yn amlygu'r pryder hwn. Gwnaeth myfyrwyr hefyd pwysleisio pwysigrwydd uwchraddio ardaloedd astudio presennol, yn enwedig trwy ychwanegu mwy o socedi gwefru (tudalen 10).

7.16 Roedd y galw am seddi a byrddau ychwanegol yn sylw a oedd yn codi dro ar ôl tro, gan fod llawer yn teimlo bod yr ardaloedd astudio presennol heb ddodrefn digonol a bod diffyg digon o fyrddau a chadeiriau ar gyfer pawb. **Amlygwyd y thema hon yn aml mewn sylwadau am ofod astudio CSL.**

7.17 Er bod llai o sylwadau yn sôn am leoliadau penodol ar gyfer ardaloedd astudio ychwanegol, awgrymodd 28 o fyfyrwyr ardaloedd penodol, gyda Chanolfan Bywyd Myfyrwyr, ABACWS, ac ASSL wedi'u henwi mwyaf. Yn ogystal, mynegodd 20 o fyfyrwyr awydd am ardaloedd astudio tawelach, gyda rhai yn awgrymu ystafelloedd bach preifat i helpu gyda ffocws.

Ar y cyfan, mae argaeledd ac ansawdd mannau astudio yn amlwg yn bwysig i fyfyrwyr. Mae galw mawr am fwy o le, gwell cyfleusterau, oriau estynedig, a mannau tawel i ddiwallu anghenion rheiny gydag amserlenni amrywiol. Mae'r adborth yn adlewyrchu awydd cryf am amgylcheddau sy'n cefnogi eu ffocws a llwyddiant academaidd.

## Cymorth i fyfyrwyr

7.18 Derbyniwyd 469 o sylwadau ynghylch cymorth i fyfyrwyr, sef 10% o'r holl adborth (ac eithrio sylwadau "Arall" ac "Undeb y Myfyrwyr") Wythnos Siarad. Er mai hwn oedd y pedwerydd mater uchaf yn ôl y nifer o sylwadau arno, cafodd tua 180 yn fwy o sylwadau na'r pumed uchaf, gan amlygu pa mor bwysig yw mynediad at gymorth i'r corff myfyrwyr presennol.

### *7.19 Cymorth lles ac iechyd meddwl*

Roedd mwyafrif yr adborth yn canolbwyntio ar wasanaethau lles y brifysgol, gyda 138 o sylwadau'n mynd i'r afael â phryderon am gymorth iechyd meddwl. Cyfeiriodd myfyrwyr at

amseroedd aros hir a diffyg arweiniad clir ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael. O'r rhain, gofynnodd 48 yn benodol am fwy o adnoddau iechyd meddwl.

### *7.20 Cefnogaeth academaidd gan diwtor / mentor personol*

Derbyniwyd cyfanswm o 104 o sylwadau ynglŷn â chefnogaeth academaidd, gyda 48 o fyfyrwyr yn nodi bod y cymorth presennol y maent yn ei dderbyn o fudd i'w dysgu. Yn ogystal, roedd 56 o sylwadau yn awgrymu bod angen newidiadau, gan gynnwys 19 cais unigol am fwy o gymorth gan eu tiwtor neu fentor personol. Mynegodd myfyrwyr hefyd awydd am fwy o oriau cyswllt gyda thiwtoriaid a mentoriaid. Am fanylion pellach, cyfeiriwch at yr adran Addysgu (tudalen 11).

### *7.21 Myfyrwyr rhyngwladol*

Gwnaed sylwadau hefyd ar gefnogaeth i fyfyrwyr rhyngwladol gyda chyfanswm o 15 o sylwadau. Tynnodd 12 o fyfyrwyr sylw at yr angen am well cymorth gyda fisâu, pasbortau, a gwybodaeth gliriach am ffioedd myfyrwyr rhyngwladol.

### *7.22 Cymorth Gyrfaol*

Soniodd 31 o fyfyrwyr am gymorth gyrfaol o fewn sylwadau 'cadw' gan gynnwys sôn am help gyda'u CV. Mae hyn yn awgrymu bod myfyrwyr yn cydnabod gwerth y gwasanaethau hyn ac yn eu cael yn fuddiol i'w helpu i baratoi ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

| |
|---|
| Mae galw clir am wasanaethau lles ehangach, a fyddai'n helpu i leihau amseroedd aros am gymorth iechyd meddwl. Yn ogystal, mae myfyrwyr yn galw am fwy o gefnogaeth academaidd un-i-un. Bydd gwella eglurder gwasanaethau ar draws pob maes cymorth myfyrwyr yn allweddol i ddiwallu anghenion myfyrwyr yn well. |

## 8.0 Sylwadau Ychwanegol

Mae'r adran ganlynol yn ymdrin yn sydyn â sylwadau ychwanegol a wnaeth dderbyn adborth sylweddol ac sy'n haeddu archwiliad pellach, er na wnaethon nhw gyrraedd y pedair thema uchaf o ran y nifer o sylwadau.

### *8.1 Amserlen*

Er mai dim ond 190 o sylwadau a dderbyniwyd am Amserlennu, roedd pob un ohonynt yn dod o dan y categori 'newid', gan ddangos galw clir gan fyfyrwyr am addasiadau i'r amserlen bresennol.

Ymysg yr adborth, gofynnodd 11 o fyfyrwyr am gael gwared ar ddarlithoedd 9yb ar ddydd Iau, ac awgrymodd 12 arall ddileu pob dosbarth 9yb yn gyfan gwbl. Yn ogystal, gwnaeth 21 o fyfyrwyr sylwadau ar hyd darlithoedd, gan ofyn iddynt gael eu cwtogi neu am seibiannau hirach rhyngddynt.

Mynegodd myfyrwyr bryderon hefyd am y system amserlennu ganolog, gan amlygu newidiadau aml i ystafelloedd sy'n amharu ar gysondeb ac sy'n aml yn cael eu cyfathrebu'n wael. Nododd llawer o fyfyrwyr fod yr ystafelloedd a neilltuwyd yn aml yn rhy fach ar gyfer maint y dosbarth. Ar y cyfan, roedd galw clir am welliannau i'r system amserlennu.

### *8.2 Asesu*

Gofynnodd 10 myfyriwr am gadw’r dulliau asesu presennol, gan fynegi gwerthfawrogiad penodol am asesiadau ar-lein ac arholiadau llyfr agored. Fodd bynnag, roedd 29 o fyfyrwyr eisiau newidiadau penodol i ddulliau asesu, gyda llawer yn gofyn am fwy o fodiwlau gwaith cwrs ac am wasgaru arholiadau a therfynau amser yn fwy cyfartal ar draws y flwyddyn academaidd.

Nododd 42 o fyfyrwyr fod gormod o arholiadau a therfynau amser wedi’u clystyru gyda’i gilydd, gan greu pwysau a straen diangen, ac awgrymwyd eu gwasgaru’n fwy i atal hyn.

Yn ogystal, darparodd myfyrwyr sylwadau ynghylch oedi wrth dderbyn adborth gan ofyn am ymatebion cyflymach. Gwnaeth llawer hefyd galw am fwy o arweiniad a gwell cyfathrebu ynghylch y dull o asesu a chyflwyno, gyda chais penodol am gymorth mwy strwythuredig ar draethodau.

### *8.3 Arlwyo*

Mae'r newidiadau allweddol y mae myfyrwyr am eu gweld ym maes Arlwyo yn cynnwys ehangu gwasanaethau a mannau gwerthu ar draws campysau, yn enwedig caffi yn Adeilad Bute. Tra bod 5 myfyriwr wedi canmol cost opsiynau bwyd, cododd 92 o fyfyrwyr bryderon am brisiau uchel bwyd a diod ar y campws, gan ofyn am ddewisiadau mwy fforddiadwy.

### *8.4 Trafnidiaeth*

Awgrymodd 65 o fyfyrwyr welliannau i’r mynediad at gludiant rhwng campysau. Gofynnodd llawer o fyfyrwyr am gludiant am ddim o'r neuaddau i'r campws, yn ogystal â bysiau i ac o Undeb y Myfyrwyr. Roedd awydd cryf am lwybr bws 24/7 yn cysylltu pob campws er mwyn gwneud trafnidiaeth yn fwy cyfleus a galluogi mynediad i gyfleusterau yn ystod oriau hwyr.

Mynegodd 6 myfyriwr angen penodol am well opsiynau trafnidiaeth i gampws y Mynydd Bychan. Yn ogystal, gwnaeth 7 myfyriwr ar leoliad godi pryderon am yr angen am well cludiant i'w

lleoliadau. Yn gyffredinol, mynegodd myfyrwyr alw clir am gludiant dibynadwy am ddim ar draws campysau a neuaddau preswyl Prifysgol Caerdydd.

### *8.5 Cymorth llety*

O fewn y sylwadau 'cymorth i fyfyrwyr' a 'llety', mynegodd 15 o fyfyrwyr angen am well cymorth wrth ddod o hyd i dai addas, rheoli biliau, a threfnu amwynderau hanfodol. Amlygodd myfyrwyr mai dyma'r tro cyntaf iddynt drin y cyfrifoldebau hyn ac maent yn teimlo fod angen mwy o arweiniad arnynt wrth lywio'r broses a deall eu cyllid.

### *8.6 Y Gymraeg*

Mae myfyrwyr nid yn unig yn gofyn am barhad ac ehangu modiwlau Cymraeg ond maent hefyd yn chwilio am fwy o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Gwnaeth 13 o fyfyrwyr gofyn am gynnydd mewn mynediad i ddosbarthiadau Cymraeg ar draws y Brifysgol.

Mae myfyrwyr yn galw am ddarparu modiwlau Cymraeg, gyda galw am fwy o adnoddau a deunyddiau dysgu i fod ar gael yn Gymraeg. Byddai hyn yn helpu i gefnogi’r nod ehangach o wella addysg Gymraeg a hygyrchedd i fyfyrwyr.

Mae myfyrwyr eisiau gweld newid yn eu hamserlenni gan ofyn am fwy o gysondeb a threfn arferol. Dylid gwasgaru asesiadau ar draws y flwyddyn academaidd gyda llai o ffocws ar arholiadau. Mae angen i fwyd sy'n cael ei werthu ar y campws fod yn rhatach gyda mwy o fannau arlwyo drwyddi draw. Mae myfyrwyr eisiau gwell trafnidiaeth gyhoeddus i ac o'r campws gan ofyn am amserlen fysiau wedi'i diweddaru. Mae myfyrwyr hefyd wedi mynegi angen am gymorth ychwanegol o ran llety a rheoli'r cyfrifoldebau a ddaw gyda hyn. Yn olaf, mae myfyrwyr yn mynegi awydd i ddysgu Cymraeg ac i ddeunyddiau addysgu fod ar gael yn Gymraeg.

## 9.0 Myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol

Er nad yw’r materion yn yr adran hon wedi derbyn cymaint o sylwadau, maent yn arbennig o bwysig gan eu bod yn adlewyrchu profiadau myfyrwyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'n hanfodol tynnu sylw at y materion hyn ochr yn ochr â phryderon ehangach er mwyn sicrhau bod lleisiau'r holl fyfyrwyr yn cael eu clywed ac yn derbyn sylw.

### *9.1 Opsiynau arlwyo Halal*

Gofynnodd 15 o fyfyrwyr am ddewis ehangach o opsiynau bwyd Halal mewn mannau arlwyo.

### *9.2 Toiledau rhywedd-niwtral*

Mynegodd 5 myfyriwr awydd am doiledau rhywedd-niwtral ychwanegol ar draws pob campws.

### *9.3 Ystafelloedd gweddïo*

Tra bod myfyrwyr yn gwerthfawrogi’r ystafelloedd presennol, gofynnodd 23 o fyfyrwyr am fwy o ystafelloedd ar draws y campws, gydag eraill yn awgrymu diweddariadau i’r cyfleusterau presennol.

### *9.4 Pryderon hygyrchedd (lifftiau a mynediad i’r campws)*

Gwnaeth 17 o fyfyrwyr sylwadau ar eu gwerthfawrogiad o'r nodweddion hygyrchedd presennol ar draws y brifysgol, fodd bynnag, cododd 26 o fyfyrwyr bryderon am faterion hygyrchedd. Soniodd rhai am lifftiau wedi torri a diffyg rampiau, gan ei gwneud yn anodd mynychu digwyddiadau a dosbarthiadau. Disgrifiodd un myfyriwr y campws fel "anhygyrch."

| |
|---|
| Mae myfyrwyr yn gofyn am fwy o opsiynau arlwyo Halal, toiledau rhywedd-niwtral, ystafelloedd gweddïo newydd, a diweddariadau i ystafelloedd gweddïo presennol. Mae angen gwella hygyrchedd pob campws gyda mwy o lifftiau a rampiau. |

## 10.0 Undeb Myfyrwyr Caerdydd

### *10.1 Trosolwg*

Undeb y Myfyrwyr (UM) dderbyniodd y nifer uchaf o sylwadau yn ystod Wythnos Siarad, gyda 2,657 o sylwadau. Roedd 1,720 o'r rhain yn sylwadau 'Cadw', tra bod 937 yn sylwadau 'Newid'.

Mae'r canlynol yn drosolwg o'r adborth allweddol a'r argymhellion a gyflwynwyd gan fyfyrwyr ynghylch yr UM, gyda'r meysydd gyda'r nifer fwyaf o sylwadau wedi'u nodi.

**Newidiadau dymunol**

### *10.2 YOLO*

Tra bod 216 o fyfyrwyr wedi mynegi eu gwerthfawrogiad am YOLO, rhoddodd 126 o fyfyrwyr adborth ar newidiadau dymunol. Yn eu plith, soniodd 51 o fyfyrwyr yn benodol am y problemau ciwio presennol. Awgrymodd llawer y gellid rheoli'r ciwiau'n fwy effeithlon, gydag argymhelliad cyffredin i addasu'r amseriad, gan gynnwys rhai ceisiadau i'r ciw agor yn hwyrach ac eraill yn awgrymu ciwiau ar wahân i fyfyrwyr sy'n aelodau o'r Undeb Athletau.

### *10.3 Cost aelodaeth*

Roedd fforddiadwyedd aelodaeth hefyd yn fater canolog. Tynnodd 110 o fyfyrwyr sylw at y ffaith bod prisiau aelodaeth cymdeithasau a'r Undeb Athletau yn rhy ddrud, gan gyfyngu ar fynediad a chyfranogiad. Mae'n amlwg bod myfyrwyr yn dymuno gweld opsiynau mwy fforddiadwy, fel bod pob myfyriwr yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn y gweithgareddau a gynigir gan yr UM.

### *10.4 Digwyddiadau*

Roedd amrywiaeth a chynwysoldeb digwyddiadau hefyd yn thema gyffredin gyda myfyrwyr yn gofyn am ddigwyddiadau mwy amrywiol sy'n darparu ar gyfer ystod eang o ddiddordebau, gyda syniadau penodol yn cynnwys digwyddiadau yn ystod y dydd a digwyddiadau sy'n cynnwys grwpiau amrywiol o fyfyrwyr. Gofynnodd 32 o fyfyrwyr am fwy o 'ddigwyddiadau sobr'.

O fewn y rhain gwnaeth 6 myfyriwr gofyn i'r UM ddod â digwyddiadau adeilad cyfan yn ôl.

### *10.5 Ardaloedd astudio*

Maes arall a oedd yn peri pryder oedd ansawdd ardaloedd astudio ac argaeledd yn yr UM. Galwodd sawl myfyriwr am ardal astudio dawel ychwanegol yn yr UM, gyda rhai yn awgrymu cynnydd yn y nifer o ystafelloedd astudio preifat. Galwodd myfyrwyr hefyd am ddodrefnu'r gofodau'n well i'w gwneud yn fwy cyfforddus ac yn fwy addas ar gyfer astudio. Mae'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu'r adborth ynghylch ardaloedd astudio adeiladau'r brifysgol (tudalen 12).

*10.6 Cyfathrebu*

Roedd gwell cyfathrebu yn thema arall a ddaeth i'r amlwg. Dywedodd myfyrwyr yr hoffent gyfathrebu mwy clir ac effeithiol am ddigwyddiadau a gwasanaethau a ddarperir gan UM. Dywedodd llawer fod angen i wybodaeth fod ar gael yn haws, yn enwedig trwy e-bost a chyfryngau cymdeithasol, er mwyn hysbysu myfyrwyr am yr hyn sy'n digwydd ac sydd ar gael.

*10.7 Cymdeithasau*

Crybwyllwyd darpariaeth ar gyfer cymdeithasau a chlybiau llai mewn 9 sylwad 'newid' gyda myfyrwyr yn galw am fwy o gyllid a chefnogaeth i'r cymdeithasau hyn gyda'r gobaith y byddai mwy o gefnogaeth yn eu galluogi i gynnal mwy o ddigwyddiadau a chynyddu ymgysylltiad.

*10.8 Campws y Mynydd Bychan*

Fel y gwyddom, mae llawer o fyfyrwyr wedi mynegi awydd yn y gorffennol am fwy o bresenoldeb ar gampws y Mynydd Bychan. Amlygodd sylwadau yr angen am well hygyrchedd ac ystod ehangach o weithgareddau i ennyn diddordeb myfyrwyr ar gampws y Mynydd Bychan. Yn ystod yr Wythnos Siarad, galwodd 14 o fyfyrwyr ar yr UM i gynyddu allgymorth a chefnogaeth yma, gan arddangos galw am ddarpariaeth fwy cynhwysol o wasanaethau craidd.

**Gofynnwyd i'w cadw**

Er y newidiadau dymunol hyn, cafwyd hefyd llawer o sylwadau cadarnhaol am yr UM.

*10.9 Cymdeithasau*

Canmolodd 150 o fyfyrwyr yr ystod o gymdeithasau o fewn yr UM. Mae hyn yn destun balchder, gan ei fod yn sicrhau bod rhywbeth at ddant pawb o fewn yr ystod amrywiol o gymdeithasau.

*10.10 Bwyd a diod fforddiadwy*

Canmolodd myfyrwyr yr opsiynau bwyd a diod fforddiadwy sydd ar gael yn UM, yn enwedig mewn mannau fel y Taf, a dderbyniodd dros 140 o sylwadau 'cadw' ei hun. Nododd llawer o fyfyrwyr fod prisiau'r Taf yn isel ac yn fforddiadwy. Yn ogystal, gofynnodd nifer o fyfyrwyr am fwy o gynigion fel yr hyn a welir yn y Taf a mwy o amrywiaeth o opsiynau bwyd am brisiau tebyg.

*10.11 Digwyddiadau*

Mynegodd 85 o fyfyrwyr eu gwerthfawrogiad am yr ystod amrywiol o ddigwyddiadau yn yr UM, gan ddarparu ar gyfer amrywiaeth o ddiddordebau.

*10.12 Mynediad a gofodau*

Yn ogystal, mynegodd myfyrwyr ganmoliaeth am ofodau'r UM, gyda 38 o fyfyrwyr yn nodi'n benodol eu bod am 'gadw' ardal y lolfa yn eu sylwadau. Gwnaeth myfyrwyr hefyd ddangos eu

gwerthfawrogiad am oriau agor estynedig yr UM gyda 5 sylwad 'cadw' ynghylch mynediad 24/7 i'r adeilad.

### Effaith Undeb y Myfyrwyr ar fywyd myfyrwyr

Ar raddfa Likert o 1-5, gyda 5 yn golygu cytuno'n gryf bod yr UM wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd myfyrwyr, y sgôr cyfartalog oedd 4.01. Dywedodd cyfanswm o 2,243 o fyfyrwyr fod effaith yr UM ar eu profiad yn 4 neu'n uwch, sy'n golygu roedd 80% o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr UM wedi cael dylanwad cadarnhaol ar eu profiad fel myfyrwyr.

## Tabl o sylwadau

Ac eithrio sylwadau Undeb y Myfyrwyr.

Proseswyd data Wythnos Siarad fesul sylwadau unigol, sy'n golygu y gallai sylwadau ar un cerdyn adborth gael eu categoreiddio o dan fwy nag un thema lle bo'n berthnasol.

| Maes | Nifer o sylwadau | Dadansoddiad ychwanegol |
|---|---|---|
| **Llety** | Cadw: 1<br>Newid: 79<br>**Cyfanswm: 80** | Gwasanaeth golchi dillad / Cost: 8<br>Cynnal a chadw: 15<br>Cymorth llety: 15<br>Arall: 42 |
| **Cyfleoedd Dysgu Ychwanegol** | Cadw: 48<br>Newid: 71<br>**Cyfanswm: 119** | Cyfleoedd byd-eang: 17<br>Y Gymraeg: 13<br>Dosbarthiadau iaith: 15<br>Cyfleoedd i ôl-raddedigion: 8<br>Arall: 66 |
| **Hygyrchedd** | Cadw: 24<br>Newid: 104<br>**Cyfanswm: 128** | Hygyrchedd campws: 43<br>Gwasanaethau anabledd: 16<br>Trafnidiaeth myfyrwyr: 69 |
| **Asesiad** | Cadw: 10<br>Newid: 139<br>**Cyfanswm: 149** | Amserlennu asesiadau: 42<br>Fformat: 38<br>Cymorth asesu / cyfathrebu: 48<br>Arall: 21 |
| **Cymuned myfyrwyr** | Cadw: 91<br>Newid: 90<br>**Cyfanswm: 181** | Atmosffer a chynhwysiant: 55<br>Diogelwch myfyrwyr: 11<br>Diwylliant Cymreig: 7<br>Arall: 108 |
| **Amserlen** | Cadw: 0 | Cyfathrebu: 8 |

| | | |
|---|---|---|
| | Newid: 190<br>**Cyfanswm: 190** | Amserlennu canolog: 14<br>Amser: 152<br>Arall: 16 |
| **Arlwyo** | Cadw: 42<br>Newid: 215<br>**Cyfanswm: 257** | Cost: 97<br>Mannau bwyd a diod: 79<br>Amrywiaeth: 30<br>Opsiynau Halal: 15<br>Arall: 36 |
| **Adnoddau** | Cadw: 161<br>Newid: 128<br>**Cyfanswm: 289** | Adnoddau ar-lein: 49<br>Adnoddau llyfrgelloedd 41<br>Dysgu Canolog 25<br>Gwasanaethau TG 17<br>Archebu ystafelloedd: 15<br>Argraffu: 13<br>Arall: 129 |
| **Cymorth i fyfyrwyr** | Cadw: 212<br>Newid: 257<br>**Cyfanswm: 469** | Gwasanaethau lles: 138<br>Cymorth academaidd: 104<br>Cymorth gyrfaol: 36<br>Cefnogaeth myfyrwyr rhyngwladol: 15<br>Arall: 176 |
| **Ardaloedd astudio** | Cadw: 234<br>Newid: 242<br>**Cyfanswm: 476** | Cyfleusterau / Nifer: 202<br>Oriau agor: 53<br>"Ardal astudio": 89<br>CSL: 16<br>Arall: 116 |
| **Addysgu** | Cadw: 267<br>Newid: 349<br>**Cyfanswm: 616** | Fformat: 115<br>Oriau cyswllt: 108<br>Cynnwys: 40<br>Dysgu ar-lein: 35<br>Hyd darlithoedd: 25<br>Arall: 293 |
| **Cyfleusterau** | Cadw: 296<br>Newid: 674<br>**Cyfanswm: 970** | Oriau agor: 219<br>Adeiladau: 121<br>Microdonau a thegellau: 30<br>Capasiti ardaloedd cymunedol: 53<br>Mwy o allfeydd trydanol: 89<br>Arall: 458 |
| **Arall** | Cadw: 235<br>Newid: 437<br>**Cyfanswm: 672** | "Popeth" / "Dim byd": 264<br>Popeth arall: 407 |